



Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**

Cynllun Iaith Gymraeg Gorfennaf 2007



Paratowyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn o dan adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 9 y Ddeddf. Daeth yn weithredol ar 11 Gorffennaf.

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	3
2. Cefndir	5
Uchelgais y Cynulliad	5
3. Cynllunio a darparu gwasanaethau	6
Darparu gwasanaethau dwyieithog	6
Gwasanaethau drwy drydydd parti	6
Safonau ansawdd	7
Prif ffrydio'r Gymraeg	7
Darparu gwasanaethau	7
4. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	8
Gohebiaeth	8
Post electronig	8
Galwadau ffôn	9
Cyfarfodydd cyhoeddus	10
Cyfarfodydd unigol	11
Fideogynadledda	11
Mannau cyhoeddus	11
Presenoldeb y Cynulliad mewn cyfarfodydd, arddangosfeydd a digwyddiadau cyhoeddus	12
Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau	12
Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd	12
Y rhyngrwyd	13
5. Ein Delwedd Gyhoeddus	14
Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd, hysbysebu	14
Arwyddion swyddogol	14
Brandiau a logos	15
Dogfennau ar gyfer trafodion Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau	15
Cyhoeddiadau eraill (gan gynnwys fersiynau electronig)	15
Ffurflenni	16
Datganiadau i'r wasg	17
Hysbysebion recriwtio allanol	17
Ailfrandio'r Cynulliad	17
6. Trefniadau Gweinyddol	18
Staffio	18
Recriwtio	19
Hyfforddiant Iaith Gymraeg	20
Hyfforddiant galwedigaethol	21
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	21
Gweithio mewn partneriaeth	21
Trefniadau mewnol	21
Canllawiau ysgrifenedig	22
Cyfieithwyr a Golygyddion	23

Briffio a hyfforddi	24
Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth	
Amgylcheddol	24
Monitro	24
Adolygu a diwygio'r Cynllun	25
Cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau dwyieithog	25
Ymdrin â chwynion	26

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu i Gyrrff y Goron baratoi a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg. Dylai unrhyw Gynllun nodi'r camau y mae corff yn bwriadu'u cymryd, mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac wrth arfer swyddogaethau statudol. Diben y Cynllun yw gweithredu'r egwyddor y dylid trin Cymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, a hynny wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid gweithredu'r egwyddor hon cyhyd ag y bo hynny'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwahanu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ffurfiol, ac yn diffinio swyddogaethau'r ddau gorff. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu corff a elwir yn Gomisiwn y Cynulliad (y Comisiwn).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yn cynnwys y 60 Aelod Cynulliad a etholir gan bobl Cymru. Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am gymeradwyo'r rhan fwyaf o'r gwariant cyhoeddus yng Nghymru, craffu ar weithredoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a dwyn y Llywodraeth i gyfrif. Mae gan y Cynulliad hefyd bwerau i wneud deddfwriaeth (sef Mesurau Cynulliad) yn y meysydd hynny y mae Senedd y DU wedi trosglwyddo pwerau iddo.

Comisiwn y Cynulliad

Aelodau'r Comisiwn yw Llywydd y Cynulliad a phedwar Aelod Cynulliad arall. Rhaid i'r Comisiwn ddarparu i'r Cynulliad yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arno, neu sicrhau bod y rheini'n cael eu darparu. Mae swyddfeydd y Comisiwn wedi'u lleoli ar draws Cymru. Gellir cael gwybodaeth am ystad, staff a gwasanaethau'r Comisiwn ar wefan y Cynulliad: <http://www.cynulliadcymru.org>

Er bod y Cynllun hwn yn berthnasol i'r Cynulliad, y Comisiwn fydd yn bennaf gyfrifol am ei roi ar waith. I osgoi camddealltwriaeth, cyfeirir at y Cynulliad yn unig weddill y ddogfen, oni bai fod angen gwahaniaethu rhwng gwahanol gyfrifoldebau.

Os bydd y Cynulliad yn cyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru mewn ffordd na chaiff ei disgrifio'n benodol yn y ddogfen hon, bydd yn gwneud hynny yn unol â'r egwyddorion cyffredinol a geir yn y Cynllun hwn ac yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Nid yw'r Cynllun hwn yn berthnasol i swyddogaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ganddi ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun. Mae Cynllun y Llywodraeth yn nodi sut y mae'n bwriadu cyfathrebu â'r Cynulliad, sef:

“Pan fydd staff sy'n dod o dan y Cynllun [Iaith] yn gyfrifol am baratoi'r papurau ar gyfer trafodion y Cynulliad, byddant yn eu darparu i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad yn unol â'r terfynau amser y cytunwyd arnynt. Bydd y papurau fel rheol yn ddwyieithog a bydd yr atodiadau yn ddwyieithog yn unol â'r fethodoleg flaenoriaethu sef Atodiad A i'r Cynllun Iaith.”

Diffiniad o'r cyhoedd

Yn y Cynllun hwn, mae'r term 'cyhoedd' yn cyfeirio at unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff anghorfforedig. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu garfan o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys cyrrff gwirfoddol ac elusennau. Mae'r term 'cyhoedd' hefyd yn cwmpasu cyfarwyddwyr a phobl eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl mewn cyrrff cyhoeddus pan fyddant yn cyflawni swyddogaethau swyddogol.

2. Cefndir

2.1 Mae adran 35(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad weithredu'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal trafodion y Cynulliad, cyhyd ag y bo hynny'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae adran 98(5) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw Fesurau a wneir gan y Cynulliad gael eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn amlinellu ymrwymadau eraill sy'n berthnasol i ofyniad adran 35(1).

Ym mis Mai 2004, paratowyd Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad (y staff sy'n cynorthwyo'r Cynulliad). Roedd y datganiad yn nodi sut yr oedd yn darparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd. Cafodd y datganiad ei fonitro'n gyson ac anfonwyd adroddiadau blynyddol at Bwyllgor y Tŷ yn yr Ail Gynulliad.

2.2 Uchelgais y Cynulliad

Y Cynulliad yw prif gorff democrataidd Cymru. Mae dyletswydd arno i sicrhau bod modd i bob dinesydd a phob Aelod Cynulliad gael gwybod am y broses ddemocrataidd yn eu dewis iaith a chyfrannu'n llawn at y broses honno'n Gymraeg neu'n Saesneg. Felly, rhaid i'r Cynulliad ddatblygu'n sefydliad gwirioneddol ddwyieithog er mwyn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog.

I weithredu fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, cred y Cynulliad fod angen:

- (i) galluogi'r Cynulliad i gynnal pob agwedd ar ei waith yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y sail bod y ddwy iaith yn gyfartal;
- (ii) gwarantu y bydd unrhyw ymgynghoriad y mae'r Cynulliad yn ei gynnal ymhlith pobl Cymru'n ddwyieithog;
- (iii) darparu gwasanaeth gwybodaeth i'r cyhoedd, gwasanaeth addysg a gwasanaeth i ymwelwyr sy'n gwbl ddwyieithog.

Rydym am ddatblygu'n sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, gan ystyried y ffactorau a ganlyn:

- y gwasanaeth dwyieithog a ddarperir ar hyn o bryd;
- nifer y staff dwyieithog sydd gan y Cynulliad ar hyn o bryd ac amserlen realistig ar gyfer cynyddu nifer y staff dwyieithog;
- yr ansicrwydd ynghylch y llwyth gwaith deddfwriaethol a dwysedd y gwaith hwnnw;
- y cyfyngiadau ariannol a'r blaenoriaethau sy'n cyd-daro;
- y gwersi yr ydym yn eu dysgu gan seneddau dwyieithog eraill ac arferion da o ran meithrin cysylltiadau â'r cyhoedd.

3 Cynllunio a darparu gwasanaethau

3.1 Darparu gwasanaethau dwyieithog

Mae'r gwasanaethau isod wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y Cynllun hwn:

Trafodion y Cynulliad

- Cyfarfodydd Llawn, Pwyllgorau ac Is-Bwyllgorau;
- Yr holl wybodaeth a dogfennau cysylltiedig.

Gwasanaethau i'r cyhoedd

Darperir pob gwasanaeth sy'n hyrwyddo perthynas y Cynulliad â'r cyhoedd ac sy'n helpu pobl Cymru i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Digwyddiadau allanol

- Presenoldeb mewn digwyddiadau allanol megis Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Bydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad yn unol â'r Cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a byddwn yn achub ar bob cyfle i sicrhau eu bod yn helpu'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn ymweld â'r Cynulliad neu'n cysylltu ag ef.

Byddwn yn sicrhau bod pob Mesur Cynulliad yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

Pan fydd y Cynulliad yn galluogi polisïau a gwasanaethau i gael eu datblygu a'u cyflwyno drwy ddeddfwriaeth, yn hwyluso'r broses honno ac yn cyfrannu ati, bydd yn gwneud hynny yn unol â'r Cynllun hwn. Cyflawnir hyn drwy ddatblygu'r ddarpariaeth a'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i sicrhau bod modd cynnal pob agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Cynulliad i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Amserlen weithredol:

Gorffennaf 2007 ac yn gynyddol

3.2 Gwasanaethau drwy drydydd parti

Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau rhwng y Cynulliad a thrydydd parti (megis asiantaethau recriwtio, cwmnïau arlwy, ymgynghorwyr a chontractwyr ac yn y blaen) i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â rhannau perthnasol y Cynllun hwn. Darperir gwybodaeth i gyflenwyr yn ystod y broses dendro yn nodi'n union pa nwyddau/gwasanaethau y bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Gwneir hynny yn ysgrifenedig ar gychwyn y broses i sicrhau bod y cynigion a'r prisiau'n cael eu cyflwyno ar sail gyfartal a chyson. Bydd yn ofynnol i gyflenwyr nwyddau neu wasanaethau adrodd ar y ffordd y maent yn cydymffurfio â rhannau perthnasol y Cynllun yn unol â chymal(au) perthnasol y cytundeb/contract/archeb rhwng y Cynulliad a'r contractwr. Darperir canllawiau ysgrifenedig penodol (gan ystyried unrhyw gyngor a ddarperir gan y Bwrdd) i staff a chyflenwyr er mwyn sicrhau cysondeb o ran gweithredu ac adrodd ar gydymffurfio.

Fel arfer, anfonir gwahoddiadau i dendro at gyflenwyr yn eu dewis iaith, neu'n ddwyieithog os nad yw'r Cynulliad yn gwybod beth yw dewis iaith cyflenwr. Os nad yw pawb sy'n ymwneud â'r broses yn deall Cymraeg, caiff tendrau a gyflwynir yn Gymraeg yn unig eu cyfieithu i'w gwerthuso'n fewnol. Bydd staff sy'n rhan o'r broses asesu'n sicrhau bod digon o amser ar gael yn yr amserlen i gyfieithu'r tendrau. Dros gyfnod, gyda chynnydd yn nifer y staff dwyieithog, dylai'r galw am gyfieithiadau o'r fath leihau. Bydd gwasanaeth gwirio testun yn sicrhau ansawdd Cymraeg ysgrifenedig.

Amserlen weithredol:

Gorffennaf 2007 ac yn gynyddol

3.3 Safonau ansawdd

Darperir gwasanaethau cyhoeddus o'r un safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac o fewn yr un amserlen.

Amserlen weithredol:

Gorffennaf 2007 ac yn gynyddol

3.4 Prif ffrydio'r Gymraeg

Mae'r Cynulliad yn ymwybodol o'r angen i brif ffrydio'r Gymraeg ymhob agwedd ar ei swyddogaethau a'i weithgareddau. Bydd swyddogion yn rhoi cyngor i'r Aelodau ar effaith ein polisiau a'n gwasanaethau ar y Gymraeg. Byddant hefyd yn cynghori'r Aelodau ar effaith cynigion deddfwriaethol perthnasol a busnes arall y Cynulliad.

Amserlen weithredol:

Monitro bob pedair blynedd

3.5 Darparu gwasanaethau

Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

4. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Gohebiaeth

Bydd y Cynulliad yn ymdrin â gohebiaeth ysgrifenedig fel a ganlyn:

- Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ateb drwy llythyr Cymraeg wedi'i lofnodi (boed ar ffurf copi caled neu gopi electronig).
- Rydym yn anelu at ateb llythyrau Cymraeg a Saesneg o fewn 15 diwrnod gwaith. Byddwn yn anfon llythyrau Cymraeg at unigolion, grwpiau neu sefydliadau y gwyddom eu bod yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, neu y byddai'n well ganddynt dderbyn llythyrau Cymraeg.
- Pan fyddwn yn anfon llythyr safonol neu gylchlythyr at ddau unigolyn/sefydliad neu ragor, byddwn yn anfon llythyr dwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bawb gael llythyr uniaith Cymraeg neu uniaith Saesneg. Pan fo'n ymarferol a chost effeithiol, anfonir gohebiaeth at unigolion yn eu dewis iaith yn hytrach nag yn ddwyieithog. Bydd hyn yn rhyddhau adnoddau cyfieithu ar gyfer blaenoriaethau eraill.
- Os yw sefydliad neu grŵp wedi dechrau ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn cadw eu manylion ar ffeil i sicrhau bod unrhyw ohebiaeth bellach â'r cyswllt yn y sefydliad/grŵp yn Gymraeg. Gwneir hyn i warantu cysondeb ieithyddol i'r bobl yr ydym yn cyfathrebu â nhw, a bydd yn rhaid i staff droi at y ffeil cyn cyfathrebu ymhellach.
- Pan fydd llythyr Cymraeg yn dod i law gan unigolyn neu sefydliad, bydd unrhyw ohebiaeth a anfonir ato yn y dyfodol yn Gymraeg.
- O dan amgylchiadau eithriadol, gallai fod angen anfon llythyrau ar frys a byddai unrhyw oedi'n peri anfantais. Mae'n bosib y câi llythyrau o'r fath eu hanfon yn Saesneg yn unig. Gwneir unrhyw benderfyniad i wneud hynny ar sail pwysigrwydd darparu'r wybodaeth ac nid ar sail amserlenni gweinyddol yn unig. Bydd yn ofynnol i staff gyfiawnhau achosion o'r fath a chadw cofnod ohonynt i weld pa mor gyffredin yw'r arfer.
- Rhoddir datganiad byr ar bapurau a chyhoeddiadau swyddogol yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae hyn yn rhan o'r strategaeth gyhoeddusrwydd ar gyfer y gwasanaeth dwyieithog i sicrhau bod y cyhoedd yn defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg (a bod nifer y bobl sy'n gwneud hynny'n cynyddu).
- Yn dilyn sgwrs wyneb yn wyneb neu sgwrs dros y ffôn yn Gymraeg, anfonir unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan yr unigolyn dderbyn gohebiaeth Saesneg neu ohebiaeth ddwyieithog.
- Pan fyddwn yn cyhoeddi llythyrau dwyieithog, byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn o'r un safon, diwyg, maint ac amlygrwydd gan adlewyrchu'r egwyddor a geir yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal.
- Bydd deunydd a gaiff ei amgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, os oes deunydd dwyieithog ar gael. Bydd deunydd a amgaeir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, os oes deunydd o'r fath ar gael.

Post electronig

Croesewir post electronig yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, a bydd yr ymrwymadau ar gyfer gohebiaeth hefyd yn berthnasol i bost electronig. Os bydd negeseuon e-bost yn cynnwys nifer fawr o atodiadau yn y ddwy iaith, megis

papurau pwyllgor, anfonir atodiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân gan nodi'n glir ym mha iaith y mae pob atodiad.

Yn ddiweddar, lanswyd ein gwefan newydd, sef cynulliadcymru.org ac assemblywales.org.

Bydd llofnod a negeseuon allan o'r swyddfa pob aelod staff yn ddwyieithog.

Ein nod yw ymateb i unrhyw neges e-bost yn y naill iaith neu'r llall o fewn 15 diwrnod gwaith.

Amserlen weithredol:

Yn weithredol ers mis Mai 2004

Llythyrau sy'n nodi penderfyniad

Os bwriedir i *lythyr sy'n nodi penderfyniad* gyfleu polisi i gynulleidfa lawer ehangach na'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad, neu unrhyw weithdrefn statudol arall, byddwn yn ei drin, o dan y Cynllun hwn, fel cyhoeddiad.

Dogfennau cyfreithiol a chytundebau

Cynigir dogfennau cyfreithiol, ynghyd â chytundebau cyfreithiol gydag unigolion, grwpiau a chyrff, yn newis iaith y sawl y mae'n berthnasol iddo. Mewn cytundebau o'r fath, bydd mapiau ac unrhyw atodiadau eraill a fenthyciwyd neu a ddefnyddir dan drwydded, yn ymddangos yn iaith y ffynhonnell wreiddiol.

4.2 Galwadau ffôn

Derbynnir galwadau ffôn gan y Cynulliad naill ai drwy switsfwrdd neu linellau uniongyrchol.

Pan fydd aelodau'r cyhoedd yn ffonio, cynhelir sgwrs Gymraeg neu Saesneg, yn unol â'u dewis iaith. Mae hyn yn cynnwys y switsfwrdd, llinellau gwybodaeth i'r cyhoedd ac aelodau staff. Bydd cyfeirlyfr electronig mewnol staff y Cynulliad yn nodi'r unigolion hynny sy'n siarad Cymraeg.

Galwadau drwy'r switsfwrdd

Ers mis Rhagfyr 2006, mae gan y Cynulliad ei system ffôn ei hun.

Croesewir ymholiadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd staff y switsfwrdd yn ateb gyda chyfarfodiad dwyieithog, gyda'r cyfarfodiad Cymraeg yn gyntaf.

Bydd neges ddwyieithog ar wasanaeth ateb ein switsfwrdd.

- Bydd unrhyw ymholiad a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg os yn bosibl.
- Os bydd y sawl sy'n galw'n gofyn am gael siarad â swyddog penodol, trosglwyddir yr alwad i'r swyddog hwnnw.
- Os na fydd y sawl sy'n galw'n enwi swyddog penodol, a'i fod am siarad Cymraeg, trosglwyddir yr alwad i siaradwr Cymraeg ar restr o staff dwyieithog yn y Gyfarwyddiaeth briodol sy'n gallu delio ag ymholiadau yn Gymraeg. Os na

fydd siaradwr Cymraeg ar gael yn y Gyfarwyddiaeth ar y pryd, cynigir y dewisiadau a ganlyn i'r sawl sy'n galw sef:

- (i) bod aelod staff dwyieithog yn ffonio'n ôl o fewn un diwrnod gwaith;
- (ii) bod y sawl sy'n galw'n anfon llythyr neu e-bost Cymraeg; neu
- (iii) bod y sgwrs yn parhau'n Saesneg.

Galwadau ffôn uniongyrchol i staff unigol:

Bydd staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn ateb y ffôn gyda chyfarfodiad dwyieithog ac yn defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol. Anogir staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i ateb y ffôn gyda chyfarfodiad dwyieithog ac i roi negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol gyda chymorth cydweithwyr dwyieithog. Drwy gydol cyfnod y cynllun hwn cymerir camau ymarferol, megis hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol, er mwyn cymell nifer cynyddol o'r staff di-Gymraeg i ddefnyddio cyfarfodiad dwyieithog yn ysbryd ein huchelgais. Caiff hyn ei fonitro'n flynyddol i weld pa mor gyffredin yw'r arfer.

Erbyn 2009, disgwylir y bydd pob aelod staff sy'n defnyddio peiriant ateb yn rhoi cyfarfodiad dwyieithog a negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol er mwyn cyflawni'r uchelgais.

- Os bydd rhywun yn ein ffonio'n uniongyrchol ac yn siarad Cymraeg, caiff ei ateb yn Gymraeg os bydd hynny'n bosibl.
- Os yw'r alwad yn cael ei hateb gan rywun nad yw'n siarad Cymraeg, bydd yn egluro'r sefyllfa'n gwrtais ac yn trosglwyddo'r alwad yn syth i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg ar restr o staff dwyieithog sy'n gallu delio ag ymholiadau yn Gymraeg.
- Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael, cynigir y dewisiadau a restrir uchod o dan 'Galwadau drwy'r switsfwrdd'.
- Os bydd angen ffonio'r sawl a wnaeth yr alwad yn ôl, gwneir hynny cyn gynted ag y bo modd, ac o fewn un diwrnod gwaith fan bellaf. Bydd yn ofynnol i staff gadw cofnod o unrhyw achlysur lle na chydymffurfiwyd â'r drefn hon.
- Ar sail nifer y staff dwyieithog sydd ar gael ar hyn o bryd a thros gyfnod y Cynllun hwn, ni allwn warantu y bydd y siaradwr Cymraeg (ar y rhestr o staff dwyieithog) sy'n delio â'r alwad yn arbenigo yn y maes dan sylw. Felly, rhaid i'r sawl sy'n gwneud yr alwad benderfynu a yw am barhau i drafod y mater yn Saesneg â swyddog arbenigol neu anfon ymholiad ysgrifenedig yn Gymraeg. Rydym yn derbyn nad yw trefniant o'r fath yn gyson â darpariaeth gofal cwsmer Cymraeg cyflawn, ond dros gyfnod o amser ni fydd cymaint o alw am drefniadau o'r fath.

Amserlen weithredol:

Yn weithredol ers mis Mai 2004

4.3 Cyfarfodydd cyhoeddus

Pan fydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, bydd yn asesu'r galw am wasanaeth cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg er mwyn sicrhau bod modd i bobl gyfrannu'n Gymraeg a bod modd i'r bobl nad ydynt yn deall Cymraeg ddilyn pob cyfraniad.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog. Ymhellach, anogir mynychwyr i gyfrannu yn eu dewis iaith.

Byddwn yn hysbysu'r rheini sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ac yn annog cyfraniadau Cymraeg.

Fel rheol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw bapurau neu wybodaeth arall a ddarperir ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a chaiff adroddiadau neu bapurau a gynhrychir ar ôl cyfarfodydd cyhoeddus eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

Byddwn yn ceisio sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys o blith staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn mynd i bob cyfarfod cyhoeddus, ond ni fydd modd gwarantu hyn ymhob achos.

Amserlen weithredol:

Mai 2004 ac yn gynyddol

4.4 Cyfarfodydd unigol

Pan fydd y cyhoedd am drafod materion sy'n ymwneud â gweithdrefnau neu wasanaethau'r Cynulliad wyneb yn wyneb (ond o fewn cwrpas y datganiad yn 3.1), mae croeso iddynt wneud hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg. Gwneir trefniadau ymlaen llaw i gynnal pob cyfarfod ar sail dewis iaith yr unigolion – byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf. Bydd aelod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i fynd i'r cyfarfod. Os nad oes aelod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael (oherwydd nifer y staff dwyieithog sydd ar gael ar hyn o bryd), cynigir darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb pan fo'n rhesymol ymarferol. Os na fydd modd gwneud hynny, gofynnir i'r bobl sy'n dod i'r cyfarfod ymdrin â'r mater drwy ohebiaeth Gymraeg, neu barhau â'r cyfarfod yn Saesneg.

Nid yw'n debygol y bydd yr opsiwn cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddefnyddio'n aml, ond fel mesur tymor byr mae'n gydnaws â'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn ysbryd ein huchelgais.

O ran cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gynhelir ar fyr rybudd dilynir y camau uchod, ond yn y tymor byr ni allwn warantu y bydd siaradwr Cymraeg ar gael ar bob achlysur.

Amserlen weithredol:

Yn weithredol ers mis Mai 2004 ac yn gynyddol

4.5 Fideogynadledda

Pan gynhelir cynhadledd fideo, bydd yr egwyddorion ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb hefyd yn berthnasol, yn amodol ar gyfyngiadau'r dechnoleg sydd ar gael.

4.6 Mannau cyhoeddus

Yn y manau cyhoeddus hynny a reolir gan y Cynulliad (yn y Senedd, yn swyddfeydd staff y Cynulliad ym Mae Caerdydd a Bae Colwyn ac mewn cyfarfodydd Pwyllgor a digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir tu allan i adeiladau'r Cynulliad), gall aelodau o'r cyhoedd siarad ag aelod o staff cyfarch y Cynulliad yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unol â'u dewis iaith. Bydd staff dwyieithog yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

O bryd i'w gilydd ni fydd yn bosib gwarantu bod siaradwyr Cymraeg yn bresennol (yn arbennig swyddogion diogelwch), ond rydym eisoes yn gwella'r sefyllfa drwy ddarparu hyfforddiant dysgu Cymraeg.

Bob wythnos mae nifer o fyfyrwyr o ysgolion Cymru yn dod i Gaerdydd i ymweld â'r Senedd. Mae'n allweddol bwysig i'r Cynulliad fod y profiad hwnnw yn gyson â dewis iaith ysgolion unigol.

Amserlen weithredol: *Yn weithredol ers mis Mai 2004 ac yn gynyddol*

4.7 Presenoldeb y Cynulliad mewn cyfarfodydd, arddangosfeydd a digwyddiadau cyhoeddus

Bydd digwyddiadau cyhoeddus, arddangosfeydd ac ati a drefnir gan y Cynulliad yn ddwyieithog a bydd cyfraniad y Cynulliad at ddigwyddiadau a drefnir gan eraill hefyd yn ddwyieithog. Fel rheol, bydd siaradwyr Cymraeg ar gael ym mhob digwyddiad o'r fath i alluogi'r cyhoedd i gyfrannu'n Gymraeg neu'n Saesneg. O ystyried nifer y staff dwyieithog sydd gan y Cynulliad ar hyn o bryd, ni fydd yn bosib gwarantu bod siaradwyr Cymraeg yn bresennol ar bob achlysur.

Amserlen weithredol: *Cychwynnwyd ym mis Mai 2004 ac yn barhaus*

4.8 Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau

Caiff cyfraniadau mewn Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfraniadau a wneir yn Gymraeg. Darperir clustffonau i'r cyhoedd di-Gymraeg er mwyn iddynt ddilyn y trafodion.

Mae'r gweithdrefnau a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn y Rheolau Sefydlog yn llywio trafodion y Cynulliad mewn Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor. Maent yn nodi y bydd unrhyw waith craffu ar ddeddfwriaeth ac unrhyw weithdrefnau neu weithgareddau allweddol eraill yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.

Cyn gynted ag y bo modd ar ôl y cyfarfod, cyhoeddir cofnod gair-am-air dwyieithog o bob Cyfarfod Llawn, ynghyd â chofnod o bob cyfarfod Pwyllgor gyda chyfieithiad Saesneg o unrhyw gyfraniadau Cymraeg.

Amserlen weithredol: *Yn weithredol ers mis Mai 2004 ac yn barhaus*

4.9 Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd

Wrth ymwneud â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill, bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal a chaiff yr egwyddor hon ei hymgorffori yn ein prosesau cynllunio. Bydd unrhyw wasanaeth newydd yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys eitemau amrywiol megis sylwebaeth glywedol, cyfryngau rhyngweithiol, teithiau clywedol rhithwir a theithiau tywys. Mae'r negeseuon yn ein lifftiau eisoes yn ddwyieithog.

Pan gynhelir ymchwiliadau neu arolygon cyhoeddus, rydym yn sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Gofynnir i ymatebwyr a ydynt am ymateb i arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu'n Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad byddwn yn ystyried dewis iaith y mynychwyr ac a oes modd dod o hyd i hyfforddwyr Cymraeg eu hiaith.

Rydym yn sicrhau bod pob cyhoeddiad a wneir dros y systemau cyfarch cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Amserlen weithredol:

Yn weithredol ers mis Mai 2004 ac yn barhaus

4.10 **Y rhyngrwyd**

Cyhoeddir gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Cynulliad ar ddwy wefan, y naill yn Gymraeg ar www.cynulliadcymru.org a'r llall yn Saesneg ar www.assemblywales.org. Lansiodd gwefan newydd y Cynulliad ym mis Mai 2007. Mae'n ddwyieithog ac mae modd llywio'n uniongyrchol o dudalen mewn un iaith i'r dudalen gyfatebol yn yr iaith arall. Os nad yw'r deunydd ar gael yn Gymraeg, mae'r linc ar y wefan Gymraeg yn mynd â'r defnyddiwr yn uniongyrchol i'r ddogfen berthnasol ar yr ochr Saesneg heb iddo orfod defnyddio nifer o lincs gwahanol. Wrth ddylunio unrhyw wefannau newydd, neu wrth ddatblygu ein gwefan, byddwn yn ystyried cyngor y Bwrdd a geir yn ei *Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog*.

Amserlen weithredol:

Gorffennaf 2007 ac yn barhaus

5. Ein delwedd gyhoeddus

5.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusurwydd, arddangosfeydd, hysbysebu

Mae pob ymgyrch hysbysebu a chyhoeddusurwydd sy'n targedu'r cyhoedd yn gyffredinol yn gyfan gwbl ddwyieithog ac yn trin y ddwy iaith yn gyfartal (gweler yr adran am hysbysebion recriwtio hefyd).

Amserlen weithredol:

Yn weithredol ers mis Mai 2004

Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusurwydd, gwybodaeth i'r cyhoedd, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu eu cynhyrchu'n gyfan gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd, byddant ar gael ar yr un pryd a bydd y naill fersiwn mor hygyrch â'r llall.

Bydd unrhyw hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Dim ond yn Gymraeg y cyhoeddir hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Pan fydd y Cynulliad yn cyhoeddi unrhyw hysbysebion teledu, sinema, band-eang a radio, byddant yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol hefyd yn Gymraeg.

Byddwn yn osgoi defnyddio is-deitlau Cymraeg neu drosleisio hysbysebion yn Gymraeg (ac eithrio lleisio).

Bydd peiriannau ateb, ynghyd ag unrhyw ddulliau eraill o ymateb i ymgyrchoedd y Cynulliad yng Nghymru, yn ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Bydd unrhyw arddangosfeydd clyweledol, teithiau clywedol rhithwir neu gyfrwng rhyngweithiol a baratoir yn ddwyieithog.

Pan fydd staff yn gyfrifol am stondinau ac arddangosfeydd, sicrheir bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn bresennol yn unol ag adrannau 4.6 - 4.7.

Amserlen weithredol:

Gorffennaf 2007 ac yn barhaus

5.2 Arwyddion swyddogol

Bydd pob arwydd swyddogol, dros dro a pharhaol, sy'n cyfleu gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog gan drin y ddwy iaith yn gyfartal. Bydd y geiriad neu'r testun Cymraeg yn ymddangos gyntaf neu uchaf ar bob arwydd. Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran fformat, maint,

ansawdd ac amlygrwydd. Bydd hyn yn berthnasol i bob arwydd, gan gynnwys arwyddion electronig.

Amserlen weithredol: *Yn weithredol ers mis Mai 2004 ac yn barhaus*

5.3 **Brandiau a logos**

Bydd hunaniaeth gorfforaethol a delwedd gyhoeddus y Cynulliad yn ddwyieithog gan drin y ddwy iaith yn gyfartal ac eithrio'r enghreifftiau isod:

- Enw prif adeilad y Cynulliad, sef y 'Senedd',
- Yr enwau ar rannau o'r Senedd, sef 'Neuadd', 'Oriol' a 'Cwrt'.

Bydd y geiriad neu'r testun Cymraeg yn ymddangos gyntaf neu uchaf neu ar y chwith ar bob arwydd. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo (heblaw pan y'i defnyddir heb eiriau), ein sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu - a deunydd fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, cardiau mynediad, tocynnau, cardiau cydnabod, nodiadau cyfarch, gwahoddiadau a cherbydau.

Amserlen weithredol: *Yn weithredol ers mis Mai 2004 ac yn barhaus*

5.4 **Dogfennau ar gyfer trafodion Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau**

Bydd unrhyw ddogfennau sy'n berthnasol i fusnes Cyfarfod Llawn ac sy'n cael eu drafftio gan Bwyllgorau'r Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad (ac eithrio'r rheini sy'n ymgymryd â dyletswyddau Gweinidog) a staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd unrhyw ddogfennau sy'n berthnasol i fusnes y Pwyllgorau ac sy'n cael eu drafftio gan y Comisiwn, Pwyllgorau'r Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad (ac eithrio'r rheini sy'n ymgymryd â dyletswyddau Gweinidog) a staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gael i Aelodau'r Pwyllgor yn Gymraeg ac yn Saesneg o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod perthnasol. Dylai unrhyw bapurau a gomisiynir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrrff allanol gael eu darparu'n Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd raid cynnwys eitem ar agenda Pwyllgor ar fyr rybudd, efallai na fydd modd i'r papurau hynny fod ar gael yn ddwyieithog ond byddwn yn ceisio sicrhau eu bod ar gael bob amser. Mae'n ofynnol i staff gadw cofnod o bob achlysur lle cyhoeddir papurau'n Saesneg yn unig er mwyn gweld pa mor gyffredin yw'r arfer. Gwneir hyn i fesur ac i asesu faint o adnoddau pellach sydd eu hangen i sicrhau bod darpariaeth ddwyieithog gyflawn ar gael.

Amserlen weithredol: *Yn weithredol ers mis Mai 2004 ac yn barhaus*

5.5 **Cyhoeddiadau eraill (gan gynnwys fersiynau electronig)**

Fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r holl ddeunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, yn amodol ar y fformiwla isod, gan gyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn un ddogfen. Diffinnir 'cyhoeddiad' fel unrhyw ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru. Ymhlith y cyhoeddiadau hynny y mae llyfrynau a thafenni, cardiau, tystysgrifau, dogfennau ymgynghori, posteri, sticeri, deunydd marchnata amrywiol, protocolau, canllawiau, codau ymarfer, hysbysiadau

cyhoeddus a chylchlythyron, etc. Mae'r cyhoeddiadau hefyd yn cynnwys CD-ROMau a dogfennau neu eitemau a roddir ar wefan y Cynulliad p'un ai a ydynt ar gael ar ffurf copi caled ai peidio. Mae dogfennau sydd i'w cyhoeddi'n allanol neu sydd ag oes hir iddynt yn debygol o gael blaenoriaeth dros ddogfennau sydd at ddefnydd mewnol yn unig neu sy'n fyrhoedlog eu natur. Cytunwyd ar fformiwla ar gyfer blaenoriaethu dogfennau i'w cyfieithu, ond fe'i hadolygir yn yr haf 2007 a bydd gofyn i'r Bwrdd gytuno arni.

O ran cyfnod y Cynllun hwn, sef pedair blynedd, nid yw'n fwriad cynnwys dogfennau mewnol y gall y cyhoedd wneud cais i'w gweld na dogfennau nad ydynt yn cael eu paratoi'n bennaf ar gyfer y cyhoedd, a hynny oherwydd yr angen i flaenoriaethu a gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig. Er hynny adolygir y sefyllfa hon ar sail natur a nifer y ceisiadau a ddaw i law dros y pedair blynedd nesaf.

Pe bai'n rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, pe bai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), byddai'r ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd. Ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'u bod yr un mor hygyrch â'i gilydd. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Os na fydd y dogfennau ar gael am ddim, ni ddylai pris dogfen ddwyieithog fod yn uwch na phris cyhoeddiad un iaith – a bydd pris dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd fydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD-Rom, neu fel arall.

Amserlen weithredol:

Yn weithredol ers mis Mai 2004

5.6 Ffurflenni

Bydd ffurflenni a ddefnyddir gan y cyhoedd, ac unrhyw wybodaeth atodol, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau. Y nod ar bob achlysur fydd cyhoeddi ffurflenni ar ffurf un fersiwn ddwyieithog, ond ar rai adegau, am resymau megis hyd ffurflenni, bydd angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bryd hynny, byddwn yn sicrhau bod cyflenwad cyfartal o ffurflenni Cymraeg a Saesneg ar gael neu'n cael eu harddangos mewn manau cyhoeddus, neu'n cael eu dosbarthu drwy'r post neu drwy unrhyw gyfrwng arall. Pan ddosberthir ffurflenni i'w gosod mewn manau cyhoeddus sy'n eiddo i asiantaethau eraill, pwysleisir yr angen i sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael neu'n cael eu harddangos. Bydd ffurflenni dwyieithog ar gael ac anogir siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ymateb yn Gymraeg.

Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

Amserlen weithredol:

Yn weithredol ers mis Mai 2004

5.7 Datganiadau i'r wasg

Ein nod bob amser yw darparu gwasanaeth newyddion cyflawn o'r Cynulliad yn y ddwy iaith. Ar adegau eithriadol (pan fydd angen paratoi datganiad i'r wasg ar frys) cyhoeddir datganiadau uniaith Saesneg fel blaenoriaeth; ond o fewn un diwrnod gwaith cyhoeddir fersiwn Gymraeg yn ogystal ar gyfer y cyfryngau Cymraeg. Bydd yn ofynnol i aelodau staff gadw cofnod ohonynt er mwyn mesur arfer.

Er nad oes gan y Cynulliad adnoddau digonol ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth cyflawn yn Gymraeg ar adegau brys neu mewn argyfwng, rydym am gyflawni'n huchelgais dros gyfnod.

Amserlen weithredol:

Yn weithredol ers mis Mai 2004

5.8 Hysbysebion recriwtio allanol

Bydd hysbysebion sy'n ymddangos mewn cyhoeddiadau Saesneg a ddosberthir ar draws y Deyrnas Unedig yn uniaith Saesneg, oni bai fod yr hysbyseb yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Bryd hynny, bydd yr hysbysebion yn uniaith Gymraeg, gyda throednodyn esboniadol yn Saesneg, yn unol ag arferion da presennol.

Bydd hysbysebion a gyhoeddir yng Nghymru'n bennaf neu'n unig:

- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg oni bai fod yr hysbyseb yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Bryd hynny, bydd yr hysbysebion yn uniaith Gymraeg gyda throednodyn esboniadol yn Saesneg;
- yn uniaith Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Bydd y mesurau uchod hefyd yn berthnasol i hysbysebion recriwtio sy'n ymddangos mewn manau megis Canolfannau Gwaith, ffeiriau gyrfaedd a gwefannau swyddi.

Amserlen weithredol:

Yn weithredol ers mis Mai 2004

5.9 Ailfrandio'r Cynulliad

Fel rhan o'r strategaeth gyfathrebu a baratoir gan y Cynulliad, bwriedir egluro rôl, statws a phwerau newydd y Cynulliad i ddinasyddion Cymru dros y blynyddoedd nesaf. Cyflawnir hyn drwy nifer o ddulliau gwahanol a bydd pob un o'r rhain yn ddwyieithog.

Amserlen weithredol:

Gorffennaf 2007 ac yn barhaus

6. Trefniadau Gweinyddol

6.1 Staffio

Ym mis Rhagfyr 2006 roedd y Cynulliad yn cyflogi 286 o staff llawn amser. Ar sail ymarfer a gynhaliwyd yn 2003, pan oedd y Cynulliad yn cyflogi 225 o staff parhaol, casglwyd y ffigurau isod ynghylch sgiliau Cymraeg staff y Cynulliad (sef carfan y staff dwyieithog).

Dull cyfathrebu	Dim neu ychydig o allu	Rhywfaint o allu	Gallu Cyffredinol	Gallu llawn
Siarad	69 (41%)	25 (15%)	12 (7%)	64 (38%)
Deall	73 (43%)	17 (10%)	11 (7%)	69 (41%)
Ysgrifennu	80 (47%)	21 (12%)	20 (12%)	48 (28%)
Darllen	72 (43%)	24 (14 %)	8 (5%)	65 (38 %)

Mae'r ffaith y cyflogir cyfieithwyr a golygyddion dwyieithog yn ystumio'r ffigurau hyn. Mae'n anodd i'r Cynulliad ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn rhai meysydd busnes ar hyn o bryd. Hynny yw, nid yw'r sgiliau dwyieithog sydd ar gael ar hyn o bryd yn galluogi'r Cynulliad i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

Mae angen i weithfannau'r Cynulliad sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru gael mynediad at ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n meddu ar y sgiliau priodol i alluogi'r gweithfannau hynny i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cyflawn. Ni ellir cyflawni'r Cynllun hwn na'r uchelgais o ddod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog hebddynt. Yn unol â hynny bydd y gweithdrefnau isod yn cael eu dilyn:

- (i) byddwn yn cynnal arolwg o bryd i'w gilydd i bennu nifer y staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, yn ogystal â lefel eu gallu a'u lleoliad (yn cynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Byddwn hefyd yn nodi'r staff hynny sydd am ddysgu Cymraeg neu wella'u sgiliau Cymraeg er mwyn cyflawni busnes y Cynulliad.
- (ii) byddwn yn pennu pa wasanaethau a swyddi y byddwn yn eu hysbysebu yn y dyfodol, yn allanol neu'n fewnol, gan nodi bod y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Gellir nodi'r gofyniad hwn fel elfen o swydd benodol, gweithfan, tîm, gwasanaeth, cyfarwyddiaeth, neu swyddfeydd penodol.
- (iii) erbyn mis Rhagfyr 2007, bydd canlyniadau'r ddau ymarfer uchod yn cael eu cymharu er mwyn llunio strategaeth sgiliau ieithyddol ddrafft a fydd yn fframwaith gweithredol ar gyfer gweithredu polisiau unigol mewn gwahanol feysydd sef:
 - Pennu lefel y sgiliau dwyieithog sydd eu hangen ym mhob cyfarwyddiaeth, a'r camau i'w dilyn i gyflawni hyn,
 - Darparu hyfforddiant dysgu a gwella Cymraeg, hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng Cymraeg, a Chynlluniau Datblygu Perfformiad (sef cynlluniau hyfforddi a datblygu staff),

- Recriwtio staff (hysbysebu ac ymgeisio am swyddi a chyfweld ac asesu cymwyseddau ieithyddol),
- Cyfrifoldeb dros weithredu a monitro cynnydd/ cydymffurfiad.

Caiff y strategaeth sgiliau ieithyddol ei rhoi ar waith ar ôl ymgynghori'n fewnol a rhoi hyfforddiant pwrpasol i reolwyr llinell.

Fel blaenoriaeth gychwynnol, bydd pob derbynfa a'r prif switsfyRDDau yn cynnig ac yn darparu gwasanaeth Cymraeg bob amser.

Elfen allweddol o'r uchelgais fydd cynyddu'r arfer, nad yw'n gyffredin ar hyn o bryd, o ysgrifennu testunau gwreiddiol (megis llythyrau, dogfennau, ffurflenni, datganiadau ac ati) yn Gymraeg yn hytrach nag yn Saesneg. Anogir staff sy'n gallu llunio testunau Cymraeg i wneud hynny. Byddai hyn yn sicrhau ein bod yn defnyddio sgiliau'r staff dwyieithog yn y ffordd orau a'r ffordd fwyaf cost effeithiol ac yn defnyddio'r adnodd cyfieithu i gyfieithu testunau o'r ddwy iaith, ac nid o Saesneg yn unig. Pan adolygir y Cynllun hwn yn 2011, cynhelir ymarfer i weld ym mha iaith y cyflwynwyd deunyddiau i'r Gwasanaeth Cyfieithu gan y Cyfarwyddiaethau, a chaiff y canfyddiadau eu bwydo i'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol (6.1.(iii)) a'r Cynllun Hyfforddiant Cymraeg (6.3). Cynhelir yr un ymarfer yn flynyddol ar ôl hynny er mwyn mesur arfer a gweld pa gamau y bydd angen eu cymryd neu pa gynnydd pellach y bydd ei angen i greu diwylliant mwy cynhwysol.

Amserlen weithredol:

Rhagfyr 2007 ac yn gynyddol

6.2 Recriwtio

Bydd pob penodiad yn cael ei wneud ar sail teilyngdod, yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Cynulliad yn gyflogwr cyfle cyfartal. Golyga hyn fod gan bob un yr un cyfle i gael ei gyflogi a'i ddyrchafu, yn seiliedig ar ei allu, ei gymwysterau a pha mor addas ydyw ar gyfer y swydd. Felly ni ddylai neb fod o dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir eu cyfiawnhau.

Os yw'r Cynulliad am gyflawni'i uchelgais, mae arno angen cyflenwad digonol o unigolion i ymdrin â busnes drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny ym mhob rhan o wasanaethau'r Cynulliad. Fel a nodir yn 6.1 (ii), penderfynir pa feysydd gwaith y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar eu cyfer. Er mwyn cynyddu'r cyflenwad o sgiliau digonol yn y Gymraeg, byddwn yn mabwysiadu ac yn gweithredu strategaeth sgiliau dwyieithog gynhwysfawr (6.1.(iii)) y bydd angen i bob rheolwr llinell ymgyswgu â hi.

Os na ellir canfod ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, anogir y sawl a benodir i ddysgu Cymraeg.

Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n siarad Cymraeg i swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn *hanfodol* a chaniatáu amser iddo ddysgu'r iaith. Mewn achosion o'r fath, bydd y gallu i ddysgu'r iaith hyd at y lefel ofynnol, o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno, yn faen prawf penodol i fesur perfformiad.

Pan na fydd ymgeiswyr addas sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn *hanfodol* (neu os penodir ymgeisydd nad yw'n siarad Cymraeg ond sy'n dysgu Cymraeg), byddwn yn gwneud trefniadau dros dro i ddarparu

gwasanaeth Cymraeg (er enghraifft, drwy ddefnyddio staff sy'n gallu siarad Cymraeg o ran arall o'n sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

Amserlen weithredol: Strategaeth Sgiliau Ieithyddol erbyn mis Mawrth 2008

Parheir i ddarparu pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyflwynir deunyddiau o'r fath yn ddwyieithog boed ar ffurf un fersiwn ddwyieithog neu ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Gall ymgeiswyr lenwi'r ffurflenni cais yn eu dewis iaith, ac nid oes rheidrwydd arnynt i lenwi ffurflenni cais yn ddwyieithog.

Amserlen weithredol: Yn weithredol ers mis Mai 2004

Cynhelir cyfweiliadau dwyieithog ar gyfer swyddi y mae sgiliau ieithyddol Cymraeg a Saesneg yn hanfodol ar eu cyfer. Yn ogystal, asesir hyfedredd ymgeiswyr yn y Gymraeg a'r Saesneg fel rhan o'r broses ddethol.

Amserlen weithredol: Gorffennaf 2007 ac yn gynyddol

6.3 Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Ers mabwysiadu'r Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog ym mis Mai 2004, darparwyd cyfres o ddsbarthiadau dysgu a gwella Cymraeg i aelodau staff a oedd wedi nodi yn eu Cynlluniau Datblygu Perfformiad eu bod am ddilyn cyrsiau o'r fath. Byddwn yn cynnal gwerthusiad o'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg i staff y Cynulliad (ac i'r Aelodau) ac ar sail y gwerthusiad hwnnw byddwn yn penderfynu ynghylch natur y ddarpariaeth yn y dyfodol.

I wireddu uchelgais y Cynllun hwn, mae angen cynyddu'n sylweddol nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg. Er mwyn ateb gofynion gwahanol unigolion a thimau, bydd cynllun hyfforddiant Cymraeg yn cael ei baratoi a fydd yn cynnwys ystod o gyrsiau hyfforddi, o gyrsiau byr sy'n canolbwyntio ar dasgau syml (er enghraifft, sgiliau ateb ffôn) a chyrsiau ac iddynt elfennau e-ddysgu i gyrsiau mwy traddodiadol a chynhwysfawr eu natur wedi'u hanelu at sicrhau rhuglder yn y Gymraeg. Lle bynnag y bo modd, bydd staff yn cael eu rhyddhau i fynychu cyrsiau preswyl dwys i ddysgu Cymraeg yn ystod toriad yr haf. Bydd pwyslais pob cwrs Cymraeg ar ddarpariaeth sy'n adlewyrchu anghenion busnes y Cynulliad. Bydd y cynllun hyfforddiant Cymraeg yn amlinellu proses o fesur effeithiolrwydd cyrsiau ar sail y niferoedd sy'n mynychu'r cyrsiau, yn cwblhau'r cyrsiau, yn ennill cymwysterau, yn cyflawni tasgau seiliedig ar waith yn Gymraeg, ac yn defnyddio'r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig wrth ddarparu gwasanaethau ar ôl bod ar gwrs.

Rydym yn sylweddoli mai proses a buddsoddiad hirdymor yw dysgu iaith, a bydd angen nodi pa aelodau staff fydd yn cael mynd ar gyrsiau Cymraeg ar sail yr angen am sgiliau dwyieithog er mwyn cyflawni swydd, gofynion busnes rhesymol y swydd a chyfyngiadau'r cyllidebau hyfforddiant blynyddol.

Byddwn yn ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Amserlen weithredol: Yn weithredol ers mis Mai 2004 ac yn barhaus

6.4 **Hyfforddiant galwedigaethol**

Bydd gallu staff y Cynulliad sy'n siarad Cymraeg i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hwyluso hefyd drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn cydnabod y bydd y broses hon yn esblygu dros gyfnod.

Amserlen weithredol: *Gorffennaf 2007 ac yn barhaus*

6.5 **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Adlewyrchir yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn, yn nefnydd y Cynulliad o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r Cynulliad hefyd yn ystyried archebu/ addasu meddalwedd a ddefnyddir i ddrafftio a phrosesu deddfwriaeth. Bydd yn angenrheidiol bod y feddalwedd yn gallu trafod deddfwriaeth ddwyieithog.

Wrth ddatblygu a phrynu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ystyrir yn llawn *Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg*.

Amserlen weithredol: *Gorffennaf 2007 ac yn barhaus*

6.6 **Gweithio mewn partneriaeth**

Os bydd y Cynulliad yn gweithredu fel arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, bydd yn sicrhau bod elfennau gwasanaeth cyhoeddus y bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn.

Os bydd y Cynulliad yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd cyfraniad y Cynulliad yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn a bydd partneriaid eraill yn cael eu hannog i gydymffurfio â'r Cynllun hwn, neu o leiaf i gydymffurfio ag ysbryd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Os bydd y Cynulliad yn dod yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r Cynllun hwn.

Amserlen weithredol: *Gorffennaf 2007 ac yn barhaus*

6.7 **Trefniadau mewnol**

Awdurdod a chyfrifoldeb dros gydgysylltu

Mae'r mesurau yn y Cynllun hwn yn dwyn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd gweithredu'n unol â'r Cynllun yn fater o gydymffurfiaeth.

Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei weithredu a'i fonitro'n flynyddol a Phennaeth yr Uned Gorfforaethol, Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA yw'r Uwch Reolwr sy'n gyfrifol am gydgylltu'r gwaith o ddarparu, monitro ac adolygu'r Cynllun hwn.

Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb datganoledig dros weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

Amserlen weithredol: *Gorffennaf 2007 ac yn barhaus*

Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o staff y Cynulliad i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mesurau a geir yn y Cynllun hwn ac i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag ef wrth gyflawni'u gwaith beunyddiol.

Amserlen weithredol: *Gorffennaf 2007 ac yn barhaus*

Er mwyn cydlynu'r gwaith o weithredu'r Cynllun, bydd Gweithgor yn cael ei sefydlu gyda chyfrifoldebau penodol dros:

- oruchwylio gweithrediad y Cynllun a'r strategaethau perthnasol,
- derbyn adroddiadau ar gynnydd a chydymffurfiad gan Gyfarwyddiaethau fesul chwarter ac adrodd i'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a Chomisiwn y Cynulliad,
- cydgordio'r broses fonitro a'r Adroddiad Monitro Blynyddol,
- goruchwylio cwynion am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg neu wasanaeth Cymraeg anghyflawn/annerbyniol.

Bydd y Gweithgor yn cynnwys cynrychiolydd o bob Cyfarwyddiaeth a phob maes gwaith. Bydd yn cyfarfod bob deufis yn ystod y flwyddyn gyntaf y bydd y Cynllun yn gweithredu. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar ddiwedd y cyfnod hwn, ond bydd yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ar ôl hynny.

Bydd gennym gynllun gweithredu manwl a fydd yn cael ei ddiweddarau'n barhaus, i'w gytuno â Bwrdd yr Iaith. Bydd yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â'r Cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu'n weithredol ar y dyddiad y daw'r Cynllun i rym, neu mor fuan â phosib wedi hynny. Bydd y cynllun gweithredu'n cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed ymhob Cyfarwyddiaeth yn y Cynulliad. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu fydd sicrhau bod y Cynulliad yn gweithredu'r Cynllun hwn mor fuan â phosibl.

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi i staff a'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd yn cael ei gyhoeddi mewn manau amlwg ar wefan a mewn rwyd y Cynulliad.

Canllawiau ysgrifenedig

Pan gyhoeddwyd y Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog, paratowyd canllawiau cyffredinol ym mis Mai 2004. Pan fydd y Cynllun hwn yn cael ei weithredu, bydd canllawiau cyffredinol yn cael eu paratoi ar gyfer staff unwaith eto. Byddant ar gael ar fewn rwyd y Cynulliad, a disgwylir i bob aelod o staff ymgysylltu â'r canllawiau er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu mewn ffordd gyson a thrylwyr.

Er mwyn cyflawni uchelgais y Cynulliad, cydnabyddir bod angen paratoi cyfres o ganllawiau pellach, sef:

- (i) Strategaeth Sgiliau Ieithyddol a Chynllun Hyfforddiant Cymraeg,
- (ii) Strategaeth Marchnata/ Cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth dwyieithog,
- (iii) Canllawiau caffael,
- (iv) Cynllun monitro.

Oherwydd pwysigrwydd a dylanwad hirdymor y canllawiau pellach o ran cyflawni'r uchelgais, byddant yn cael eu cyflwyno at sylw Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'w cymeradwyo.

Amserlen weithredol: *Canllawiau Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2007.*
Strategaethau [ac eithrio Sgiliau Ieithyddol], Canllawiau
a Chynllun erbyn mis Rhagfyr 2007.
Strategaeth Sgiliau Ieithyddol erbyn mis Mawrth 2008.

Cyfieithwyr a Golygyddion

Mae cyfieithwyr a golygyddion y Cynulliad yn gymwysedig ac yn meddu ar sgiliau ieithyddol o'r radd flaenaf. Mae pump o'r cyfieithwyr yn aelodau cyflawn o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, un ohonynt yn aelod sylfaenol a dau arall yn sefyll arholiadau i ddod yn aelodau cyflawn. Ar hyn o bryd (mis Gorffennaf 2007), mae'r tîm yn cynnwys:

- Cyfieithwyr ar y pryd - 3.0
- Cyfieithwyr testun - 3.5
- Golygyddion dwyieithog - 18
- Golygyddion di-Gymraeg - 2

Hefyd,

- Defnyddir contractwyr i gyfieithu testun yn ôl y galw;
- Defnyddir contractwyr i gyfieithu Cofnod y Trafodion dros nos;
- Mae un aelod newydd o staff yn cael hyfforddiant cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd ar hyn o bryd.

Byddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr cymwysedig y byddwn yn eu defnyddio i gyfieithu testun ac i gyfieithu ar y pryd. Byddai'n ddymunol pe bai'r cyfieithwyr hynny'n aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad o'r fath.

Er mwyn cyflawni'r uchelgais, efallai y bydd yn angenrheidiol yn y tymor byr i gynyddu nifer y staff sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu seneddol, ond ein huchelgais fydd lleihau'r angen am gyfieithu dros gyfnod. I wneud hyn bydd y Cynulliad yn gweithredu mewn modd strategol, er enghraifft drwy gynnig profiad gwaith i fyfyrwyr ar gwrs cyfieithu ôl-radd y gallai Prifysgol Cymru ei gyflwyno mewn cydweithrediad â'r Cynulliad. Bydd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol yn parhau i fod yn allweddol i alluogi'r Cynulliad i gyflawni rhai o'i swyddogaethau'n ddwyieithog.

Amserlen weithredol: *Yn weithredol ers mis Mai 2004 ac yn barhaus*

Briffio a hyfforddi

Bydd cyfres o sesiynau'n cael ei threfnu ar gyfer ein staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun hwn ac esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Fel man cychwyn i osod seiliau cadarn i'r Cynllun, bydd pob aelod staff a phob aelod o staff asiantaeth yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol. Bydd hwn yn cael ei drefnu drwy raglen gyflwyno yn ystod 12 mis cyntaf y Cynllun a thrwy'r broses gynefino barhaus. Bydd angen i bob rheolwr llinell sicrhau bod pob aelod staff newydd yn cael gwybod am oblygiadau'r Cynllun i'w priod feysydd fel rhan o'r rhaglen gynefino.

Amserlen weithredol: *Gorffennaf 2007 ac yn gynyddol*

6.8 Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Byddwn yn gweithredu yn unol â chynghor y Bwrdd ynglŷn â Deddf yr Iaith Gymraeg, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ei chyfieithu i ddewis iaith y sawl sy'n gwneud cais amdani, ar yr amod na fydd angen cyfieithu mwy na 100 o eiriau.

Amserlen weithredol: *Gorffennaf 2007 ac yn barhaus*

6.9 Monitro

Bydd y Cynulliad yn monitro perfformiad o ran:

- (i) cydymffurfio â'r ymrwymadau yn y Cynllun hwn, ac o ganlyniad
- (ii) y cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar ffurf Adroddiad Monitro Blynnyddol a fydd ar gael ar y rhyngwrdd a'r fewnwrdd.

Bydd Cynllun Monitro'n cael ei baratoi i staff yn amlinellu'r trefniadau monitro er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â nhw wrth gyflawni'u dyletswyddau. Bydd unrhyw weithdrefnau monitro a chofnodi'n cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran gweithredu'r Cynllun hwn, fel y bo'n briodol. Nid gweithdrefnau biwrocraidd amherthnasol fydd y rhain, ond gweithdrefnau a fydd yn rhoi gwybodaeth y gall y Cynulliad ei defnyddio fel dull o reoli. Fel rhan o'r gwaith monitro, byddai modd gofyn am farn unigolion a chyrrff sydd wedi derbyn gwasanaethau gan y Cynulliad drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys grwpiau ffocws, panel dinasyddion a siopwyr dirgel.

Bydd cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun gweithredu. Bydd yr amserlen ar gyfer gweithredu mesurau penodol yn y Cynllun yn cael ei hadolygu'n flynyddol yn sgil yr ymarfer monitro a byddwn yn adrodd ar unrhyw newidiadau a blaenoriaethau yn yr Adroddiad Monitro Blynnyddol. Ar ôl cyflwyno'r Adroddiad i sylw Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cytunir ar flaenoriaethau gweithredol ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Ar gais Bwrdd yr Iaith Gymraeg, byddwn yn cyflwyno adroddiad iddo ar ein cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun hwn.

Ein nod yw sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol ag amcanion y Cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod yn weithredol. Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn y targed hwn drwy ddull hunanasesu y byddwn ni a'r Bwrdd yn cytuno arno.

Amserlen weithredol: Gorffennaf 2007 ac yn barhaus bob blwyddyn

6.10 Adolygu a diwygio'r Cynllun

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei ddiwygio o fewn pedair blynedd iddo ddod yn weithredol. Er mwyn mesur cynnydd o ran cyflawni'r uchelgais, bydd nifer y staff sydd â sgiliau dwyieithog a'r cynnydd a wneir o ran gweithredu'r Cynllun yn cael eu dadansoddi pan adolygir y Cynllun.

Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen diwygio'r Cynllun hwn, oherwydd newidiadau o ran swyddogaethau ac amgylchiadau, neu am resymau eraill. Ni fydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r Cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.11 Cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau dwyieithog

Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod y cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad a holl staff y Cynulliad yn ymwybodol o'r Cynllun hwn a'r gwasanaethau y mae'n eu cwmpasu drwy weithredu'r mesurau a ganlyn:

- Paratoi strategaeth marchnata/ cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth dwyieithog a fydd yn cynnwys :
 - gosod copi o'r Cynllun ar y rhynggrwyd a'r fewnwyd,
 - cynnwys cyfeiriadau at y Cynllun mewn bwletinau staff,
 - darparu deunyddiau 'Iaith Gwaith' Bwrdd yr Iaith Gymraeg i staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gweithio yn holl fannau cyhoeddus y Cynulliad,
 - sicrhau bod ein holl wasanaethau cyhoeddus, hyd eithaf ein gallu, yn cynnig dewis iaith i unigolion ar gychwyn y cyswllt, boed hynny ar lafar, wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig neu drwy ddarparwyr gwasanaethau eraill sy'n gweithredu ar ein rhan,
 - hyrwyddo pwysigrwydd darpariaeth a dilyniant ieithyddol yng ngwasanaethau'r Cynulliad drwy gynnig, sefydlu, cofnodi, darparu a chyfeirio at ddewis iaith unigolion, cwmnïau a chyrrff sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad.

Amserlen weithredol:

Gorffennaf 2007

6.12 Ymdrin â chwynion

Y gobaith yw na fydd sail i unrhyw gŵyn, ond wrth ddatblygu ac estyn y ddarpariaeth mae'n anochel y ceir rhai achosion neu ddigwyddiadau sy'n groes i'r Cynllun ac arferion da. Byddwn yn monitro'n agos i weld i ba raddau yr ydym yn llwyddo i wireddu'r ymrwymïadau a geir yn y Cynllun hwn. Os byddwn yn methu â chydymffurfio, rydym yn gobeithio y bydd y cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad a swyddogion yn rhoi gwybod i ni yn ddiymdroi er mwyn i ni gau bylchau, dysgu gwersi a gwella'r ddarpariaeth.

Byddwn yn ymdrin â chwynion am unrhyw ddiffygion neu wasanaethau Cymraeg annerbyniol neu anghyflawn yn unol â Chod Ymarfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar Gwynion. Mae'r Cod hwn yn nodi y byddwn yn ymateb o fewn 15 diwrnod gwaith o'r dyddiad y bydd cwyn yn dod i law. Gellir cael hyd i'r Cod drwy fynd i: <http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint/con-complaint-procedure.htm>

Gellir gwneud cwyn drwy gysylltu â Phennaeth yr Uned Gorfforaethol drwy ohebiaeth neu dros y ffôn:

**Pennaeth yr Uned Gorfforaethol
Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
CAERDYDD
CF99 1NA**

**Ffôn: 029 2089 8230
APScorporateunit@wales.gsi.gov.uk**

Bydd y Cynulliad yn cydweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn datrys cwynion. Byddant hefyd yn cydweithio ar unrhyw ymchwiliad a gynhelir o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Amserlen weithredol:

Yn weithredol ers mis Mai 2004